# Sut i wneud sylwadau perthnasol

**Mae'r daflen hon yn egluro sut i wneud sylwadau perthnasol a chofrestru fel cyfrannog mewn cysylltiad â'r cais am Fferm Wynt arfaethedig yng Nghorllewin Coedwig Brechfa.**

Mae'r datblygwr, RWE Npower Renewables Cyf, wedi cyhoeddi bod y cyfnod i gofrestru â'r IPC fel cyfrannog ar gyfer archwiliad fferm wynt Coedwig Brechfa wedi agor ar **Ragfyr 7 2011** a bydd yn cau ar **Ionawr 18 2012**. Efallai y byddwch yn gweld cyhoeddusrwydd ynglŷn â hyn yn y wasg leol a hysbysiadau a arddangosir yn ardal y safle.

Cofrestrir unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n cyflwyno ffurflen sylwadau perthnasol i'r IPC fel cyfrannog a chaiff y cyfle i gymryd rhan yn y broses archwilio. Hefyd bydd cyfranogion yn derbyn gohebiaeth gan yr IPC ar bwyntiau allweddol yn y broses er diweddaru gwybodaeth.

Pan ydych yn cofrestru mae rhaid ichi gynnwys crynodeb o'r problemau allweddol rydych eisiau i'r IPC ganolbwyntio arnynt. Hefyd bydd cyfle i ddarparu sylwadau ysgrifenedig manylach yn y cam archwilio cyhyd â'ch bod yn cofrestru nawr. Cynhwysir cyngor â'r ffurflen gofrestru i'ch helpu wrth wneud sylwadau dilys. Dylech ddarllen y nodiadau hyn yn ofalus gan sicrhau eich bod yn cwblhau pob adran y ffurflen. Dylai'ch sylwadau ganolbwyntio ar yr hyn rydych yn ystyried yw effaith(-iau)'r cynnig, a/neu'r broblem(-au) neu wybodaeth allweddol yr hoffech dynnu sylw'r awdurdod Archwilio atynt. Yr awdurdod Archwilio yw Comisiynydd (Comisiynwyr) yr IPC a benodir i archwilio'r cais.

Os ydych yn cofrestru fel cyfrannog mae angen i ni (o dan y gyfraith) anfon gohebiaeth a hysbysiadau ichi ynglŷn â'r cais ar bob cam yr archwiliad. Efallai y dymunech ystyried a ddylai un aelod yn unig o'ch aelwyd gofrestru fel cyfrannog. Bydd hyn yn atal copïau lluosog o ohebiaeth rhag cael eu hanfon i'ch aelwyd. Fodd bynnag, nodwch mai cyfrannog cofrestredig yn unig fydd â'r hawl i gymryd rhan yn y broses archwilio. Efallai y bydd y rheini nad ydynt wedi cofrestru fel cyfrannog yn gallu mynychu gwrandawiadau, ond yr awdurdod Archwilio a fydd yn barnu a ddylid caniatáu i rywun nad yw wedi cofrestru fel cyfrannog wneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar yn ystod y broses archwilio.

I gofrestru rydym yn argymell defnyddio'r ffurflen arlein ar ein gwefan. Mae'r ffurflen ar-lein yn hawdd i'w chwblhau gan y bydd yn eich arwain trwy'r cwestiynau gan ofyn dim ond y rheini sy'n berthnasol i chi. Hefyd bydd yn gwiro'r ffurflen am gywirdeb a'ch atal rhag anfon ffurflen anghyflawn i ffwrdd. Gallwch o hyd ddewis rhwng derbyn gohebiaeth drwy'r post neu gan e-bost yn y dyfodol. Fodd bynnag, ble mae'n bosibl rydym yn annog defnyddio cyflwyniadau electronig.

Mae pob dogfen sy'n perthyn i'r cais hwn yn ogystal â'r ffurflen gofrestru ar-lein ar gael ar y dudalen sy'n benodol i brosiect ar wefan yr IPC, yn y cyfeiriad a roddir isod. Hefyd gellir dod o hyd i gyngor pellach ar y tudalennau cyngor a chyfarwyddyd: **http://infrastructure.independent.gov.uk**

Os na allwch gael mynediad i'r ffurflen ar-lein neu os dymunwch gyflwyno ffurflen bapur cysylltwch â desg gymorth yr IPC ar 0303 444 5000. Byddwn yn hapus i anfon ffurflen neu ffurflenni unigol ichi sydd angen i'ch aelwyd. Mae'r ffurflen bapur ar gael yn y Gymraeg neu yn Saesneg. **Cysylltwch â'r IPC os ydych eisiau mwy o gopïau o'r daflen hon i'w dosbarthu.**

Ar ôl diwedd y cyfnod cofrestru, cyhoeddir copïau o'r holl sylwadau perthnasol dilys ar wefan yr IPC. Byddwch yn ymwybodol bod angen i'r IPC dan y gyfraith sicrhau bod copïau o'r rhain ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd, ac i'w copïo os oes cais. Mae hyn yn golygu na ellir ymdrin â dim o'r wybodaeth a ddarperir, yn cynnwys eich manylion cyswllt, fel cyfrinachol. Cyfyngir manylion a gyhoeddir ar-lein i'ch enw a thestun eich sylwadau. Fodd bynnag, bydd copïau sydd ar gael i'w harchwilio mewn lleoliadau cyhoeddus yn cynnwys eich manylion cyswllt. Yna gwahoddir i bobl sydd wedi cofrestru'n llwyddiannus fynychu Cyfarfod Rhagarweiniol a chymryd rhan ynddo, a fydd yn darparu cyfle i drafod sut yr archwilir y cais. Yn y cyfarfod, neu'n fuan ar ei ôl, bydd yr awdurdod Archwilio'n cyhoeddi penderfyniad gweithdrefnol a fydd yn cynnwys yr amserlen derfynol i'r archwiliad; anfonir copïau o'r amserlen hon i bob cyfrannog.